# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-04-08)

**Dyddiad: 13 Mawrth 2008**
**Amser: 10:15 - 11:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd

### Gwasanaeth y Pwyllgor

Joanne Clinton, Clerc
Virginia Hawkins, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Brynle Williams. Mynychodd Darren Millar fel diprwy ar ran Brynle Williams.

### Eitem 2: Ystyried deiseb P-03-089 ar Ysgolion Cymunedol Powys

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau i ystyried deiseb P-03-089 a'r ohebiaeth gysylltiedig ynghylch Ysgolion Cymunedol Powys, a gyfeirwyd gan y Pwyllgor Deisebau.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r mater o aildrefnu ysgolion mewn ardaloedd gwledig, ac y byddai'r sgôp a'r

**amserlen yn cael eu cytuno mewn gohebiaeth.**

### Eitem 3: Themâu sy'n codi o ymchwiliad yr Is-bwyllgor i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd bapur ar y themâu sy'n codi o ymchwiliad yr Is-bwyllgor i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig a gwahoddodd sylwadau gan yr Aelodau.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal dadansoddiad o effaith a gweithrediad polisïau'r Llywodraeth mewn ardaloedd gwledig a chymhariaeth o'r patrymau o amddifadedd mewn ardaloedd gwleidg a threfol.